# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 14 Mai 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Mynd i'r Afael ag Anghyfiawnder Cymdeithasol

**C11 Mick Bates:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y graddau y mae polisïau trawsbynciol y Cynulliad yn mynd i'r afael ag anghyfiawnder cymdeithasol ledled Cymru? (OAQ17505)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Mae cynhwysiant cymdeithasol ymhlith yr egwyddorion sy'n arwain Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r adroddiad blynyddol am gynhwysiant cymdeithasol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, yn manylu ar sut y gellir mynd i'r afael ag anghyfiawnder cymdeithasol ym mhob maes polisi perthnasol.

### Trefniadau i sicrhau Ffyniant Sir Benfro a'r De-orllewin

**C12 Cynog Dafis:** Pa drefniadau sydd gan y Prif Weinidog ar y gweill i sicrhau ffyniant Sir Benfro a'r De-orllewin? (OAQ17496) [W]

**Prif Weinidog Cymru:** Mae strategaeth Cynulliad Cymru ar gyfer cyflawni ffyniant economaidd i Gymru gyfan wedi'i nodi yn 'Cymru'n Ennill'. Mae Sir Benfro a'r De-orllewin i gyd yn elwa o statws Amcan 1 a statws ardaloedd haen 1. Yr wyf yn ymwybodol iawn o'r anawsterau sy'n deillio o golli dros 1,000 o swyddi yng nghanolfan alwadau Pont Cleddau, ond parhaf i fod yn hyderus y bydd ymdrechion Tîm Cymru i sicrhau rhestr o gleientau eraill yn y sector hwn yn llwyddiannus, o fewn amser rhesymol.

### 'Cynllun i Gymru 2001'

**C13 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog roi adroddiad ar unrhyw gynnydd newydd a wnaed o ran gweithredu'r polisïau a geir yn y ddogfen strategol, 'Cynllun i Gymru 2001'? (OAQ17498)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwrw ymlaen yn dda tuag at wireddu ein hymrwymiadau a ddisgrifiwyd yn 'Cynllun i Gymru 2001.' Byddaf yn rhoi adroddiad ffurfiol eto am ein cynnydd yn fy adroddiad blynyddol, sydd i'w gyhoeddi ym mis Hydref.

### Safbwyntiau Pobl Cymru

**C14 Nick Bourne:** Ym mha ffordd y mae'r Prif Weinidog yn sicrhau bod safbwyntiau pobl Cymru yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau neu lunio polisïau? (OAQ17492)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr ydym yn ymgynghori a chysylltu â chymunedau â diddordeb a'r cyhoedd wrth lunio polisïau, ac yr ydym wrthi'n gweithio i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mor agos ag y bo modd i'r sawl y byddant yn effeithio arnynt. Yr ydym yn rhoi adroddiad ffurfiol am y sylwadau a wneir ymhob ymgynghoriad a gynhelir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, fel y bydd y modd y mae'r polisïau terfynol wedi adlewyrchu'r safbwyntiau hynny yn eglur ac agored.

### Ariannu Prosiectau Cyfalaf y Gwasanaethau Cyhoeddus

**C15 Peter Black:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar newid rheolau benthyca y Trysorlys ar ariannu prosiectau cyfalaf y gwasanaethau cyhoeddus?

(OAQ17504)

**Prif Weinidog Cymru:** Dim. Er hynny, mae'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi trafod y mater ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru sawl gwaith.